THOMAS, DAVID FFRANGCON (1910 - 1963), sielydd

Enw: David Ffrangcon Thomas
Dyddiad geni: 1910
Dyddiad marw: 1963
Priod: Dorothy C. Thomas (née Mallinson)
Plentyn: Rosalind Thomas
Rhiant: W. Roger Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sielydd
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganwyd 19 Medi 1910 ym Mhlas-marl, Abertawe, mab W. Roger Thomas. Cafodd ei enw Ffrangcon ar ôl y canwr David Thomas Ffrangcon Davies, un o arwyr ei dad. Pan oedd yn un ar ddeg oed dechreuodd ddysgu'r sielo gyda Gwilym Thomas, Port Talbot, ac ymhen dwy flynedd enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Sielo Herbert Walenn yn Llundain. Cafodd wobrau yn eisteddfodau Cenedlaethol Pont-y-p l (1924) ac Abertawe (1926). Wedi astudio ymhellach yn yr Academi Gerdd Frenhinol, lle'r enillodd fedalau efydd ac arian, ynghyd ag ysgoloriaeth Ada Lewis, bu'n aelod o nifer o gerddorfeydd, gan gynnwys Cerddorfa Ffilharmonig Llundain a Cherddorfa Simffoni y B.B.C. Bu'n perfformio hefyd yn Neuadd Wigmore ac yn y T Opera Brenhinol, Covent Garden. Yn ystod Rhyfel Byd II bu'n gwasanaethu yn y fyddin ac yna bu'n astudio ym Mhrâg wrth draed Pravoslav Sadlo a Rafael Kubelik. Cafodd yrfa brysur fel unawdydd ym Mhrydain a theithiodd i Awstralia a'r Dwyrain Pell. Ffurfiodd ddeuawd gyda'r telynor Osian Ellis, gan ddarlledu a gwneud record i gwmmi Delysé. Ymdrechodd i sefydlu cerddorfa Gymreig, a llwyddodd i gynnal pedair cyngerdd yn 1954-55. Priododd Dorothy C. Mallinson yn 1941 a bu iddynt ferch. Bu farw 10 Rhagfyr 1963 yn Llundain a chladdwyd ei lwch yn eglwys Nicholaston ym mro G yr.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Western Mail, 11 Rhagfyr 1963

[*Y Ddinas, Cylchgrawn Cymry Llundain*, (Llundain), 1, rhif 5, Chwefror 1947, 8]

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804671

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu